# Model QR 2022/23

Mae'r dull cyllido a ddefnyddiwyd i gyfrifo cyllid QR yn 2022/23 wedi cael ei ddiwygio ers yr un a ddefnyddiwyd i gyllido cyllid QR yn 2021/22. Mae'r dull wedi cael ei symleiddio a mewnbynnau data wedi cael eu cymryd o REF 2021.

## Mewnbynnau data

- CALI staff Categori A a gyflwynwyd i REF 2021
- Proffil ansawdd a ddyfarnwyd gan REF 2021 i bob Uned Asesu a gyflwynwyd gan bob sefydliad
- Incwm gan elusennau (a ddyfarnwyd trwy gystadleuaeth agored) – cyfartaledd incwm 2018-19 i 2020-21

## Swm y cyllid

Cyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer QR yn 2022/23 yw **£81,677,344**. Dyrennir y swm yma ar draws dwy elfen o QR:

| | **2022/23**<br>**£** |
|---|---:|
| Prif ddyraniad | 73,509,610 |
| Dyraniad incwm elusennol | 8,167,734 |
| **Cyfanswm incwm QR** | **81,677,344** |

## Paramedrau

Unedau Asesu ym mhob band pynciau

- Band pynciau A
  Unedau Asesu: 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12
- Band pynciau B
  Unedau Asesu: 13, 14, 15, 24, 32, 33
- Band pynciau C
  Unedau Asesu: 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 25, 26, 27, 28, 29, 30, 31, 34

Pwysoliadau'r bandiau pynciau

- A 1.6
- B 1.3
- C 1.0

Pwysoliadau'r proffiliau ansawdd

- 4* 4
- 3* 1
- 2* 0
- 1* 0
- Diddosbarth 0

**Trothwyon**

Trothwy maint

Dim ond yr Unedau Asesu hynny a gyflwynwyd â 3 neu fwy o staff Categori A CALI dosbarthedig (wedi'i dalgrynnu i 1 lle degol) sy'n gymwys i gael eu cynnwys yn y ddwy elfen o'r dyraniad cyllid (prif incwm ac incwm elusennol).

Cyfrifir staff Categori A CALI dosbarthedig fel a ganlyn:

- Staff Categori A CALI x canran yn 1* i 4* / 100

Trothwy cynaliadwyedd

O'r Unedau Asesu hynny sy'n uwch na'r trothwy uchod, dim ond yr Unedau Asesu hynny â sgôr o 5.5 neu fwy yn y trothwy cynaliadwyedd a gaiff eu cynnwys yn y ddwy elfen o'r cyllid (prif incwm, incwm elusennol).

Caiff y trothwy cynaliadwyedd ei gyfrifo fel a ganlyn:

- Staff Categori A CALI x (pwysoliad proffil ansawdd 4* x canran yn 4* + pwysoliad proffil ansawdd 3* x canran yn 3*) / 100

**Dull dyrannu**

Prif ddyraniad

Ar gyfer pob Uned Asesu sy'n cyrraedd y ddau drothwy, cyfrifir y maint a bwysolwyd yn ôl pwnc trwy luosi nifer y staff CALI â'r pwysoliad priodol yn ôl band pynciau'r Uned Asesu:

Maint a bwysolwyd yn ôl pwnc = 1.6/1.3/1.0 x Staff CALI

Wedyn caiff y maint a bwysolwyd yn ôl pwnc ei bwysoli yn ôl y proffil ansawdd:

Maint a bwysolwyd yn ôl pwnc ac ansawdd = Maint a bwysolwyd yn ôl pwnc x (3 x canran 4* + 1 x canran 3* + 0 x canran 2* + 0 x canran 1* + 0 x canran ddiddosbarth) / 100

Caiff y maint a bwysolwyd yn ôl pwnc ac ansawdd ei symio dros yr holl sefydliadau ac Unedau Asesu ac fe gaiff cyfran y cyllid a ddyrennir i Uned Asesu mewn sefydliad ei chyfrifo fel a ganlyn:

> Cyfran y cyllid a ddyrennir i Uned Asesu mewn sefydliad = Maint a bwysolwyd yn ôl pwnc ac ansawdd yn yr Uned Asesu honno a'r sefydliad hwnnw / cyfanswm maint a bwysolwyd yn ôl pwnc ac ansawdd dros yr holl sefydliadau ac Uned Asesu

Caiff y dyraniad ar gyfer Uned Asesu mewn sefydliad ei gyfrifo fel a ganlyn:

> Prif ddyraniad = Cyllid sydd ar gael ar gyfer y prif ddyraniad x Cyfran y cyllid a ddyrannwyd i Uned Asesu mewn sefydliad

<u>Dyraniad incwm elusennol</u>

Ar gyfer Unedau Asesu sy'n cyrraedd y ddau drothwy, caiff incwm elusennol cyfartalog (a ddyfarnwyd trwy gystadleuaeth agored) ei symio dros yr holl sefydliadau ac Unedau Asesu ac fe gaiff cyfran y cyllid incwm elusennol i'w ddyrannu i Uned Asesu mewn sefydliad ei gyfrifo fel a ganlyn:

> Cyfran y cyllid a ddyrennir i Uned Asesu mewn sefydliad = Incwm elusennol cyfartalog (a ddyfarnwyd trwy gystadleuaeth agored) / cyfanswm incwm elusennol cyfartalog (a ddyfarnwyd trwy gystadleuaeth agored) dros yr holl sefydliadau ac Unedau Asesu

Caiff y dyraniad i Uned Asesu mewn sefydliad ei gyfrifo fel a ganlyn:

> Dyraniad incwm elusennol = Cyllid sydd ar gael ar gyfer y dyraniad incwm elusennol x Cyfran y cyllid a ddyrannwyd i Uned Asesu mewn sefydliad

<u>Cyfanswm dyraniad cyllid</u>

Cyfanswm y dyraniad cyllid i Uned Asesu mewn sefydliad yw swm y prif ddyraniad a'r dyraniad incwm elusennol.